**From:** CHAPPIE Network [sian@childreninwales-org.ccsend.com] on behalf of CHAPPIE Network [info@childreninwales.org.uk]
**Sent:** 06 September 2010 17:05
**To:** INFO
**Subject:** CHAPPIE Network Information Bulletin - September 2010

Children in Wales
Plant yng Nghymru

# CHAPPIE NETWORK INFORMATION BULLETIN

# BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Yn y Rhifyn Yma / In This Issue

CHAPPIE INFORMATION EVENT
JOB VACANCY
NEWS
RESEARCH
ROAD SAFETY
RESOURCES
STATISTICS
TRAINING & EVENTS

Cysylltiadau / Links

CHAPPIE Network Webpage

September 2010

Cliciwch yma ar gyfer y fersiwn Gymraeg.

This is the latest edition of the Child Accident Prevention Practice and Information Exchange Network Information Bulletin prepared by Children in Wales. It contains the latest news, research and reports from the field of Child Accident Prevention.

If you do not wish to receive this occasional e-briefing, please let us know by emailing info@childreninwales.org.uk

If you feel your colleagues would benefit from this information, please forward.

## CHAPPIE INFORMATION EVENT

We are currently organising our next CHAPPIE information event. They will be held on **20th October in South Wales** and on **18th November in North Wales**. Locations to be confirmed

In order for these events to be as useful as possible, we are identifying the needs of the CHAPPIE network and **we would like to know YOUR needs.** For example; in relation to accident prevention;

**How can we help? What would you like to know? What are you struggling with? What accident prevention examples would you like to hear about?**

Over the next few weeks, my colleague **Hannah Bussicott will be contacting you to understand your needs**, enabling her to organise relevant and useful events for your CHAPPIE network. In the meantime, have a think about what you need to address accident prevention in your area.

To contact Hannah, please email chappie@childreninwales.org.uk

## JOB VACANCY

**New Home Accident Prevention Post**

Home Accident Prevention (HAP) Wales have a vacancy for the role of Home Safety Development Officer. The aim of this post is to reduce the number of fatal, serious and disabling home accidents affecting those most at risk - children and older people.

## NEWS

CAPT Making the Link: **How the media tackles childhood accidents**

Tumble-dryers, lamp-posts, flat screen TVs - how should the accident prevention community respond to numerically rare accidents that are heavily covered in the media?

BBC: **RNLI renews warning over 'tombstoning' danger**

Rescuers have renewed a warning over the dangers of "tombstoning" after a 15-year-old was taken to hospital with a back injury

BBC: **Quad bike helmet call by doctors**

Doctors say the law should be changed to force people who use quad bikes to wear helmets

Western Mail: **Parents told of killers in the cutlery drawer**

PARENTS are putting their children's lives at risk simply by giving them a kitchen teaspoonful of medicine, a new study has warned

BBC: **Gate death families back ban call**

The family of a Bridgend girl who died after becoming trapped in a sliding electric gate are supporting a campaign to ban them in residential areas.

## RESEARCH

Nuffield Trust: **Trends in emergency admissions in England 2004 - 2009: is greater efficiency breeding inefficiency?**

This briefing paper examines the rise in emergency hospital admissions in England from 2004/05 to 2008/09 and tries to identify the possible explanations.

**Trampoline-related injuries in children: a preliminary biomechanical model of multiple users.**

*Menelaws S, Bogacz AR, Drew T, Paterson BC. Emerg Med J 2010; ePub (ePub): ePub*

This study sought to examine and simulate the forces and energy transferred to a child's limbs when trampolining with another person of greater mass.

**Why do parents with toddlers store poisonous products safely?**

*Beirens TM, van Beeck EF, Brug J, den Hertog P, Raat H. Int J Pediatr*

*2010; 2010(ePub): 702827*

The results indicate that the promotion of safe storage of medication and cleaning products should address the family situation, personal cognitive factors as well as social factors.

**Sibling supervision and young children's risk of injury: A comparison of mothers' and older siblings' reactions to risk taking by a younger child in the family**

*Morrongiello B, Schmidt S, Schell SL. Soc Sci Med 2010; ePub(ePub): ePub*

Although parental supervision is associated with reduced risk of injury to young children, supervision by older siblings has been shown to increase this risk.

**"I Think He Is in His Room Playing a Video Game": Parental Supervision of Young Elementary-School Children at Home.**

*Morrongiello BA, Kane A, Zdzieborski D. J Pediatr Psychol 2010; ePub (ePub): ePub*

Using a prospective design, this research examined supervision of young elementary-school children at home and how this relates to child injury, parent permissiveness, and children's risk-taking propensity.

## ROAD SAFETY

Road Safety Analysis: **Child Casualties 2010**

Road Safety Analysis has today revealed ground breaking analysis into child road casualty risk by the areas in which they live.

RAC: **23% of youth involved in road races**

A survey has found that 23% of young people have either been a driver or a passenger in a car "race" on a public road

**Graduated Driver Licensing**

One in five newly qualified drivers in the UK are involved in a crash within 6 months of taking their driving test. Graduated Driver Licensing aims to tackle the problem of new driver crashes by reducing exposure to high risk driving situations.

WAG: **Road casualties by unitary authority and police force areas**

Analysis of road accidents, casualties, and young drivers involved in personal injury road accidents reported to the police and recorded on Stats19 returns.

BBC: **Safer school transport law promised by first minister**

A measure on safer school transport tops the list of new planned assembly government legislation

Conwy & Denbighshire: **In-car child safety highlighted**

An operation aimed at highlighting in-car child safety throughout Conwy and Denbighshire will get underway next month.

## RESOURCES

KidPremiership: **Reduce the Risk**

'Reduce the Risk' presents essential information on family and home safety in bright cartoon images and simple text.

Dobbies: **Barbecue Safety Guide**

Before happily firing up your barbecue, be it natural gas, charcoal, propane or electric, make safety your priority

Dobbies: **Garden Furniture Safety Guide**

Before you next laze on a lounger or gather round the garden table, be aware of the potential dangers of your garden furniture.

**CAPT Newsletter**

If you have a work-related interest in children's safety, please join the CAPT mailing list.

**Firebrake Newsletter - July 2010**

**Good Practice Wales**

The Good Practice Wales Portal aims to be the single point of access to a wide range of examples of good practice available across Welsh public services.

Eurosafe: **Fact sheet: Never Leave Children in Cars**

Never leave children in cars: a major risk of death through hyperthermia

**Free Bilingual Home Safety Resources**

Handout on falls for parents

Handout to use with parents in a community/group setting

## STATISTICS

WAG: **Pedal Cyclist Casualties, 2009**

A statistical bulletin entitled 'Pedal Cyclist Casualties, 2009' was published on 8th July 2010.

WAG: **Walking & Cycling Action Plan for Wales 2009-2013, Monitoring Report**

The latest Official Statistics on Monitoring 'A Walking and Cycling Action Plan for Wales 2009-2013' produced by the Welsh Assembly Government.

WAG: **Pedestrian Road Casualties, 2009**

The Welsh Assembly Government has published a statistical bulletin entitled 'Pedestrian Road Casualties, 2009'

## TRAINING & EVENTS

27 Sep 10:**Reducing Home Accidents in Early Years - Effective Interventions** (Caerphilly)

15 Nov 10: **CO Awareness Week** - For more information email LynnCoAwareness@aol.com

02 Nov 10:**Reducing Home Accidents in Early Years - Effective Interventions** (nr Brecon)

16 Nov 10: **Reducing Home Accidents in Early Years - Effective Interventions**(near Caernarfon)

17 Nov 10: **Train the Trainer: Home Safety Training for Community Delivery** (near Caernarfon) **NEW COURSE**

# BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Hwn yw'r rhifyn diweddaraf o Fwletin Gwybodaeth y Rhwydwaith Cyfnewid Arferion a Gwybodaeth am Atal Damweiniau i Blant (CHAPPIE), a baratowyd gan Plant yng Nghymru. Mae'n cynnwys y newyddion, ymchwil a'r adroddiadau diweddaraf o faes Atal Damweiniau i Blant.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-gyfarwyddiad achlysurol hwn, gadewch inni wybod, os gwelwch yn dda, drwy e-bostio i info@plantyngnghymru.org.uk

Os ydych yn teimlo y byddai'ch cydweithwyr yn elwa o'r wybodaeth hon, cofiwch ei hanfon ymlaen.

## DIGWYDDIAD GWYBODAETH CHAPPIE

'Rydym ar hyn o bryd yn trefnu'n digwyddiad gwybodaeth nesaf o ran y Rhwydwaith Cyfnewid Arferion a Gwybodaeth am Atal Damweiniau i Blant (CHAPPIE).

Fe gânt eu cynnal ar yr **20fed o Hydref yn Ne Cymru** ac ar y **18fed o Dachwedd yng Ngogledd Cymru.** Mae'r lleoliadau i'w cadarnhau.

Er mwyn i'r digwyddiadau hyn fod mor ddefnyddiol â phosibl, 'rydym yn nodi anghenion y rhwydwaith CHAPPIE, ac **fe hoffem wybod am eich anghenion CHI.** Er enghraifft, mewn perthynas ag atal damweiniau.

**Sut y gallwn ni gynorthwyo? Beth fyddech chi'n hoffi'i wybod?**

**Gyda beth 'rydych chi'n ymlafnio? Pa enghreifftiau o atal damweiniau yr hoffech chi glywed amdanynt?**

Dros yr ychydig wythnosau nesaf, **fe fydd fy nghydweithiwr Hannah Bussicott yn cysylltu â chi i ddeall eich anghenion**, fydd yn ei galluogi hi i drefnu digwyddiadau perthnasol a defnyddiol ar gyfer eich rhwydwaith CHAPPIE. Yn y cyfamser, meddyliwch am yr hyn mae arnoch ei angen i roi sylw i atal damweiniau yn eich ardal.

I gysylltu â Hannah, a fyddech cystal ag anfon e-bost at chappie@childreninwales.org.uk

## SWYDD WAG

**Swydd Newydd Atal Damweiniau yn y Cartref**
Mae gan Atal Damweiniau Cartref (HAP) Cymru swydd wag ar gyfer rôl Swyddog Datblygu Diogelwch yn y Cartref. Nod y swydd hon yw lleihau nifer y damweiniau yn y cartref sy'n angheuol, difrifol ac sy'n anablu ac sy'n effeithio ar y sawl sydd fwyaf mewn perygl - plant a phobl hyn.

## NEWYDDION

CAPT Making the Link: **How the media tackles childhood accidents**

Peiriannau sychu dillad, polion lampau, setiau teledu sgrîn wastad - sut y dylai'r gymuned atal damweiniau ymateb i ddamweiniau sy'n rhifiadol brin ac sy'n cael llawer o sylw yn y cyfryngau?

BBC: **RNLI renews warning over 'tombstoning' danger**

Mae achubwyr bywydau wedi adnewyddu rhybudd ynglyn â pheryglon neidio o glogwyni i'r môr, ar ôl i blentyn 15 mlwydd oed gael ei gymryd i ysbyty gydag anaf i'r cefn.

BBC: **Quad bike helmet call by doctors**

Fe ddywed meddygon y dylid newid y gyfraith i orfodi pobl sy'n defnyddio beiciau cwad i wisgo helmedau.

Western Mail: **Parents told of killers in the cutlery drawer**

Mae RHIENI yn rhoi bywydau'u plant mewn perygl dim ond drwy roi llond llwy cegin o feddyginiaeth iddynt, mae astudiaeth newydd wedi rhybuddio.

BBC:**Gate death families back ban call**
Mae teulu geneth o Ben-y-bont ar Ogwr a fu farw ar ôl mynd yn sownd mewn llidiart drydan lithro yn cefnogi ymgyrch i'w gwahardd hwy mewn ardaloedd preswyl.

## YMCHWIL

**Nuffield Trust: Trends in emergency admissions in England 2004 - 2009: is greater efficiency breeding inefficiency?**

Mae'r papur cyfarwyddo hwn yn archwilio'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i ysbytai ar frys yn Lloegr o 2004/05 i 2008/09, ac mae'n ceisio â nodi'r esboniadau posibl.

**Trampoline-related injuries in children: a preliminary biomechanical model of multiple users.**

Menelaws S, Bogacz AR, Drew T, Paterson BC. Emerg Med J 2010; ePub (ePub)

Fe wnaeth yr astudiaeth hon geisio ag archwilio ac efelychu'r grym a'r egni a drosglwyddir i goesau a breichiau plentyn wrth drampolinio gyda pherson arall o fwy o fàs.

**Why do parents with toddlers store poisonous products safely?**

Beirens TM, van Beeck EF, Brug J, den Hertog P, Raat H. Int J Pediatr 2010; 2010(ePub): 702827
Mae'r canlyniadau yn dynodi y dylai'r gwaith o hyrwyddo storio meddyginiaethau a chynnyrch glanhau yn ddiogel edrych ar y sefyllfa deuluol, ffactorau gwybyddol personol, yn ogystal â ffactorau cymdeithasol.

**Sibling supervision and young children's risk of injury: A comparison of mothers' and older siblings' reactions to risk taking by a younger child in the family**

Morrongiello B, Schmidt S, Schell SL. Soc Sci Med 2010; ePub(ePub): ePub
Er bod goruchwyliaeth gan rieni yn cael ei gysylltu gyda risg is o anaf i blant ifainc, mae wedi'i ddangos bod goruchwyliaeth gan frodyr a chwiorydd hyn yn cynyddu'r risg hwn.

**"I Think He Is in His Room Playing a Video Game": Parental Supervision of Young Elementary-School Children at Home.**
Morrongiello BA, Kane A, Zdzieborski D. J Pediatr Psychol 2010; ePub (ePub)

Fe wnaeth yr ymchwil hwn archwilio goruchwyliaeth o blant ifainc ysgolion cynradd gartref, a sut mae hyn yn ymwneud ag anafiadau i blant, penrhyddid rhieni a thueddfryd plant i gymryd risg.

## DIOGELWCH AR Y FFYRDD

Road Safety Analysis: **Child Casualties 2010**
Mae Dadansoddiad o Ddiogelwch ar y Ffyrdd (Road Safety Analysis) heddiw wedi datgelu dadansoddiad arloesol o risg i blant o farwolaeth neu anaf ar y ffyrdd yn ôl yr ardaloedd ble maent yn byw.

RAC: **23% of youth involved in road races**
Mae arolwg wedi canfod bod 23% o bobl ifanc naill wedi bod yn yrrwr neu'n deithiwr mewn "ras" ceir ar ffordd gyhoeddus.

**Trwyddedu Graddedig ar gyfer Gyrwyr**
Mae un o bob pump o yrwyr sydd newydd gael eu trwydded yn gysylltiedig â gwrthdrawiad o fewn 6 mis o fod wedi sefyll eu prawf gyrru. Nod Trwyddedu Graddedig ar gyfer Gyrwyr yw mynd i'r afael â phroblem gwrthdrawiadau gan yrwyr newydd drwy leihau'r cyfle i fod yn agored i sefyllfaoedd gyrru risg
uchel.

Llywodraeth Cynulliad Cymru: **Anafusion ffyrdd yn ôl ardaloedd awdurdodau unedol a heddluoedd.**

Dadansoddiad o ddamweiniau ffyrdd, anafusion ffyrdd, a gyrwyr ifainc sy'n

gysylltiedig â damweiniau ffyrdd a achosodd anafiadau personol y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt ac a gofnodwyd ar ddychweliadau cyfeirnod Stats 19 yr heddlu.

BBC: **Safer school transport law promised by first minister**

Mae mesur ar gludiant ysgol diogelach ar ben y rhestr o ddeddfwriaeth newydd arfaethedig gan Lywodraeth y Cynulliad.

## ADNODDAU

KidPremiership: **Reduce the Risk**

Mae 'Lleihewch y Risg' yn cyflwyno gwybodaeth hanfodol am ddiogelwch teuluol a diogelwch yn y cartref mewn delweddau cartwn llachar a thecst syml.

Dobbies: **Canllawiau Diogelwch ynghylch Barbeciwiau**
Cyn eich bod yn cynnau'ch barbeciw yn llawen, boed drwy nwy naturiol, golosg, propan neu drydan, gwnewch ddiogelwch yn flaenoriaeth ichi.

Dobbies: **Canllaw Diogelwch ynghylch Dodrefn Gardd**

Cyn eich bod yn segura nesaf ar seguryn neu'n ymgynnull o amgylch bwrdd yr ardd, byddwch yn ymwybodol o beryglon dichonol dodrefn eich gardd.

**Taflen Newyddion Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau i Blant (CAPT)**
Os oes gennych ddiddordeb sy'n gysylltiedig â gwaith mewn diogelwch plant, a fyddech cystal ag ymuno â rhestr ohebu CAPT.

**Taflen Newyddion Firebrake - Gorffennaf 2010**

**Arfer Da Cymru**

Nod Porth Arfer Da Cymru yw bod yn un man cyrchu ar gyfer ystod eang o enghreifftiau o arferion da sydd ar gael ledled gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Eurosafe: **Fact sheet Never Leave Children in Cars**

Peidiwch byth â gadael plant mewn ceir: perygl mawr o farwolaeth drwy orwres.

Adnoddau dwyieithog Am Ddim ynghylch Diogelwch yn y Cartref
**Taflen am gwympiadau ar gyfer rhieni**
**Taflenni i'w defnyddio gyda rhieni mewn lleoliad cymunedol/mewn grwp.**

## YSTADEGAU

Llywodraeth Cynulliad Cymru: **Anafusion Beicwyr Pedal, 2009**

Fe gyhoeddwyd bwletin ystadegol o dan y teitl 'Anafusion Beicwyr Pedal, 2009' ar yr 8fed o Orffennaf, 2010.

Llywodraeth Cynulliad Cymru: **Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio 2009-2013, Adroddiad Monitro**

Yr Ystadegau Swyddogol diweddaraf ynghylch Monitro 'Cynllun

Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio 2009-2013', a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru: **Anafusion Cerddwyr ar y Ffyrdd, 2009**

Mae Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi bwletin ystadegol o dan y teitl 'Anafusion Cerddwyr ar y Ffyrdd, 2009'.

## HYFFORDDIANT & DIGWYDDIADAU

27 Medi 10: **Lleihau Damweiniau yn y Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar - Ymyriadau Effeithiol** (Caerffili)

15 Tachwedd 10: Wythnos Ymwybyddiaeth Carbon Monocsid - Am fwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at LynnCoAwareness@aol.com

02 Tachwedd 10:**Lleihau Damweiniau yn y Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar - Ymyriadau Effeithiol** (ger Aberhonddu)

16 Tachwedd 10: **Lleihau Damweiniau yn y Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar - Ymyriadau Effeithiol** (ger Caernarfon)

17 Tachwedd 10: **Hyfforddi'r Hyfforddwr: Hyfforddiant Diogelwch yn y Cartref ar gyfer Cyflenwi yn y Gymuned** (ger Caernarfon) **CWRS NEWYDD**

**Thank you**,

**Diolch,**

**Karen McFarlane**

Development Officer: Child Safety
Swyddog Datblygu: Diogelwch Plant

If you would like to join the CHAPPIE network, please **click here.**

Os hoffech ymuno â'r Rhwydwaith CHAPPIE, **cliciwch yma.**

**Forward email**

SafeUnsubscribe®
This email was sent to info@childreninwales.org.uk by info@childreninwales.org.uk.
Update Profile/Email Address | Instant removal with SafeUnsubscribe™ | Privacy Policy.

Email Marketing by Constant Contact TRY IT FREE

Children in Wales | 25 Windsor place | Cardiff | CF10 3BZ | null